

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

83. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Jabez Oakes ac roedd y Cynghorydd Ifan Wyn wedi hysbysu y gallai fod yn hwyr yn ymuno gyda'r cyfarfod.

84. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

85. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2020 yn gywir.

86. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

87. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc fod y penderfyniadau cynllunio a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych ers y cyfarfod blaenorol fel a ganlyn.

Ysbyty Cymuned Rhuthun – Cymeradwywyd y manylion

Tŷ Cefn, Llanfwrog – Cymeradwywyd y manylion

Bryn Ffynnon, Llanfwrog – Cais wedi'i dynnu'n ôl

Woodstock, 2 Maes Cantaba – estyniadau ac addasidau i'r annedd – Caniatawyd

Maesgwyn, Ffordd Llanfair – adeiladu estyniad – Caniatawyd

Cyn Llain Fowlio a Chwrt Tennis yng nghefn The Bungalow, Stryd y Castell – adeiladu annedd ar wahân a gwaith cysylltiedig – Gwrthodwyd

Eglwys Sant Pedr, Sgwâr Sant Pedr – Gwaith ar wahanol goed a thorri un goeden ciprwydden yn Ardal Gadwraeth Rhuthun – Dim gwrthwynebiad

Tir nesaf at / rhan o ardd 73A Erw Goch – adeiladu annedd, ffurfio mynediad a gwaith cysylltiedig – Gwrthodwyd

Hew House, Castell Rhuthun – Cymeradwywyd y manylion

88. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y cais a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD: *fod gwrthwynebiad i'r cais isod.*

02/2020/0491 – 9 Stryd Clwyd, Rhuthun

Newid defnydd ac addasiadau i siop barbwr (Dosbarth Defnydd A1) i fwyd poeth yn cael ei gludo (Dosbarth Defnydd A3)

Mae'r aelodau'n gwrthwynebu'r effaith amgylcheddol ac amwynder niweidiol ar eiddo preswyl amgylchynol ac ar sail priffyrdd, oherwydd y palmant a'r ffordd gul yn y lleoliad hwn.

89. HYSBYSIAD APÊL CYNLLUNIO

Hysbyswyd yr aelodau y cyflwynwyd apêl cynllunio ynghylch y cais cynllunio i ddymchwel yr annedd sy'n bodoli ac adeiladu 4 fflat preswyl gyda mannau parcio cysylltiedig a mynediad i'r cefn yn The Nook, Bryn Goodman, Rhuthun, ar sail peido â derbyn penderfyniad yn unol â'r amserlen ofynnol. Nid oedd yr aelodau'n dymuno ychwanegu at eu sylwadau blaenorol.

PENDERFYNWYD: *nodi'r wybodaeth.*

90. YMGYNGHORI CYN CYFLWYNO CAIS CYNLLUNIO

Roedd yr aelodau wedi'u hysbysu am yr ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio a'r digwyddiad ymgynghori. Roedd y Cadeirydd wedi bod yn rhan o'r digwyddiad ymgynghori ar-lein, ac

adroddodd fod un rhan o dir ger yr ysgolion wedi'i hepgor o'r cynnig cynllunio ar gyfer 63 annedd.

PENDERFYNWYD: aros am y cais cynllunio ffurfiol.

91. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 5 Hydref 2020 am 7.45pm.